Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Canfyddiadau a chasgliadau

Archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phartneriaethau

**Ebrill 2019**

**Steve Frank, Euros Lake a Ron Price**

# Cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol dan y Ddeddf

Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol…

1. Archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth:
   - bennu eu hamcanion llesiant
   - cymryd camau i'w cyflawni

**Cwestiwn ar y cyfan ar gyfer yr Archwiliad hwn:**
I ba raddau y mae ATA De Cymru wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni'r cam sy'n ymwneud â Gweithio mewn Partneriaeth gan gynnwys 'gweithio mewn partneriaeth fel rhan o gynnal ymweliadau Diogel ac Iach, a'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol'.

# Ein dull o gynnal Archwiliadau

**Roedd ein dull archwilio'n cynnwys:**

- cyfarfodydd cwmpasu gwaith maes cynnar ym mis Awst a briff prosiect wedi'i deilwra;
- cynnwys yr ATAau yn y broses o benderfynu ar y ddwy bartneriaeth i'w harchwilio ac yn y broses o ddylunio'r arolwg; ac
- integreiddio gwaith maes Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ag archwilio partneriaethau a mentrau cydweithio.

**Wedyn fe wnaethom:**

- adolygu dogfennaeth;
- cynnal wyth cyfweliad, gan gynnwys Uwch Swyddogion, Aelodau'r Awdurdod, a grŵp ffocws staff;
- bod yn bresennol mewn ymweliad Diogel ac Iach; ac
- rydym yn cynnig bwydo'r canfyddiadau yn ôl trwy Weithdy Adborth ac Ymateb.

# Trosolwg byr o'r cam a oedd yn cael ei adolygu

**Fe wnaethom:**

- adolygu dogfennaeth ac ategu'r hyn yr ydym eisoes yn ei wybod
- adolygu gwefannau'r ATAau yn unol â making-your-service-accessible
- cynnal arolwg o bartneriaethau gyda phartneriaid allweddol mewn dwy bartneriaeth:
  - ATADC: Diogel ac Iach a Lleihau Llosgi Bwriadol, ATAGC: Diogel ac Iach a Lleihau Llosgi Bwriadol, ac ATACaGC: Prosiect Rheoli Tân a phartneriaeth gyda Chyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Gaerfyrddin
- canolbwyntio ein harchwiliad ar nifer fach o gamau sy'n helpu i gyflawni un Amcan Llesiant sy'n gysylltiedig â chydweithio

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cyd-destun a risgiau strategol

- Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (yr Awdurdod) yn gwneud cynnydd amlwg a chyflym o ran cyrraedd y nodau a chyflawni'r dyhead yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub 2016
- Mae sicrhau cydnerthedd priodol mewn systemau dyletswydd ar alwad (RDS) yn ddyhead ac anghenraid tymor hwy
- Mae gwneud cydnerthedd cymunedol yn realiti yn cynnwys datblygu cyd-ddealltwriaeth well ynghylch sut y mae hyn yn edrych a beth y mae ar gymunedau ei angen i fod yn fwy hunangynhaliol
- Rôl esblygol diffoddwyr tân – e.e. ffocws cynyddol ar atal, a.y.b.
- Bydd cytundeb a chydweithio mwy hirdymor gyda'r Undebau ynglŷn â'r cyfeiriad teithio yn sicrhau cydnerthedd gwell ac yn ei gwneud yn bosibl cynllunio'r gweithlu dros gyfnod hwy, e.e. ar ymweliadau diogel ac iach, cysoni telerau ac amodau
- Mae rheoli Data'n well a dealltwriaeth well yn cynnig cyfleoedd sylweddol i leihau risg a chyfeirio adnoddau prin
- Er mwyn rheoli asedau'n dda bydd yn rhaid wrth fuddsoddiadau sylweddol dros y tymor hwy
- Bydd cydweithio a rhannu data'n fwy helaeth gyda gwasanaethau cymdeithasol yn cynyddu i'r eithaf fanteision gwiriadau diogelwch y cartref ac esblygiad i ymweliadau Diogel ac Iach
- Mae gwneud Agenda Ddiwygio Llywodraeth Cymru yn realiti'n cynnwys risgiau a chyfleoedd

# Casgliadau cyffredinol yr archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r archwiliad o bartneriaethau 2018-19

**Mae gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) enghreifftiau cadarnhaol o'r modd y mae wedi ystyried yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni amcanion ond mae angen gwaith pellach i ehangu a phrif-ffrydio'r ffordd y mae'n cyflawni'r pum ffordd o weithio.**

- Mae gan yr Awdurdod hanes o weithgarwch atal **hirdymor** sy'n cael ei lywio gan ddata da ond mae cyfleoedd i wella'r ffocws hirdymor ar agweddau eraill ar ei gyllid, ei waith cynllunio a'i waith cydweithio.
- Mae **integreiddio** yn datblygu'n araf ac mae angen iddo symud o ymrwymiad i integreiddio cynlluniau a strategaethau yn enwedig gyda'r Gwasanaeth Iechyd a'r Gwasanaeth Ambiwlans.
- Mae gan yr Awdurdod rai enghreifftiau cadarnhaol o'r modd y mae'n **cynnwys** cymunedau o ran lleihau llosgi bwriadol a chynnau tanau'n fwriadol ond mae ganddo ragor o waith i'w wneud i brif-ffrydio trefniadau i'w cynnwys yn ei holl waith.
- Gall yr Awdurdod ddangos effaith gadarnhaol ei **fentrau cydweithio** gyda rhai partneriaid allweddol ond mae angen iddo ddatblygu a chryfhau ei berthnasoedd a'i gyfraniad at amcanion partneriaethau ehangach.
- Mae **atal** yn ganolog i waith ATAau ac mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o'i waith cadarnhaol. Bydd cryfhau trefniadau gwerthuso'n helpu i osgoi dyblygu ac yn cynyddu'r effaith i'r eithaf.

# Trefniadau Corfforaethol mewn perthynas ag archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2018-19

## Cryfderau

- Hanes o raglenni hirdymor o wiriadau diogelwch tân yn y cartref a gweithgarwch atal sy'n canolbwyntio ar leihau marwolaethau ac anafiadau yn y cartref
- Defnydd da o'r data sydd ar gael i'w gwneud yn bosibl defnyddio dull seiliedig ar risg ar y cyd â phartneriaid
- Ymrwymiad sylweddol i ymgyrchoedd addysgol sy'n cyd-fynd â mentrau cyhoeddusrwydd cenedlaethol
- Integreiddio a lleihau themâu a chamau strategol lefel uchel
- Enghreifftiau o gynnwys partneriaid i dargedu pobl agored i niwed
- Parodrwydd i sefydlu trefniadau cytundebol i gryfhau capasiti mewnol gyda ffocws ar werth am arian – e.e. gwasanaethau rheoli asedau ac ariannol yn cael eu caffael ar sail hirdymor

# Trefniadau Corfforaethol mewn perthynas ag archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2018-19

**Meysydd i'w gwella**

- Mae cyfyngiadau ariannol yn cyfyngu ar allu'r Awdurdod i roi rhai agweddau anstatudol o waith atal posibl ar waith
- Mwy o gyfle i ddefnyddio data sy'n ymwneud â bod yn agored i niwed, allgau cymdeithasol ac arwahanrwydd i dargedu risgiau allweddol ymhellach
- Bydd gwerthusiad systematig o fentrau atal yn helpu i adnabod effaith yn fanwl
- Mae cydleoli'n effeithiol ond mae mwy o gyfle i rannu data gyda phartneriaid
- Gwnaed y cynnydd lleiaf amlwg o ran gwella'r trefniadau ar gyfer cynnwys pobl a gwneud canlyniadau ymgysylltu'n adnodd strategol; ac
- Mae angen rheoli materion o ran capasiti a achosir gan wasanaethu BGCau

# Dangosyddion Cadarnhaol ar gyfer Hirdymor

Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn?

- Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.
- Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.
- Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).
- Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.
- O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.
- Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.
- Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.
- Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.
- Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth.

# Casgliadau ar y cyfan
# Hirdymor

**Mae gan yr Awdurdod hanes o weithgarwch atal hirdymor sy'n cael ei lywio gan ddata da ond mae cyfleoedd i wella'r ffocws hirdymor ar agweddau eraill ar ei gyllid, ei waith cynllunio a'i waith cydweithio.**

**Cryfderau**

- Mae hanes o raglenni hirdymor i leihau llosgi bwriadol wedi cefnogi tuedd tuag i lawr mewn tanau, marwolaethau ac anafiadau
- Mae cynllunio ar gyfer gweithgarwch hirdymor o ran gwaith atal yn seiliedig ar ddata da a gwybodaeth dda sydd â ffocws cadarnhaol ar flaenoriaethu sefyllfaoedd lle mae pobl yn agored i niwed a risg
- Ffocws effeithiol ar weithgarwch atal hirdymor trwy esblygiad Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref i ddod yn ymweliadau o'r math Diogel ac Iach
- Ffocws ar effeithiau hirdymor y newid yn yr hinsawdd ac ystyriaeth amlwg i werth cymdeithasol ehangach lleihau llosgi bwriadol/cynnau tanau'n fwriadol
- Buddsoddi yn ansawdd data ac mewn llinellau sylfaen gweithgarwch – mae gan staff a'r tîm lleihau llosgi bwriadol fynediad at systemau data'r Heddlu

# Casgliadau ar y cyfan
# Hirdymor

**Mae gan yr Awdurdod hanes o weithgarwch atal hirdymor sy'n cael ei lywio gan ddata da ond mae cyfleoedd i wella'r ffocws hirdymor ar agweddau eraill ar ei gyllid, ei waith cynllunio a'i waith cydweithio.**

**Meysydd i'w Datblygu**

- Mae her cyllid byrdymor (Llywodraeth Cymru a chyllidebau blynyddol) i'r Awdurdod yn gallu effeithio ar wasanaethau a'r gallu i gynllunio yn yr hirdymor.
- Mae gostyngiad mewn cyllid grant yn cael dylanwad uniongyrchol ar gapasiti i ymrwymo i weithgarwch atal hirdymor.
- Mae'r data ar dueddiadau'n dda ond mae rhagor i'w wneud ar ragfynegi data mewnol ac allanol – cynllunio'r gweithlu, newid cymdeithasol, cydnerthedd cymunedol, a.y.b.

# Dangosyddion cadarnhaol ar gyfer Integreiddio

Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'?

- **Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.**
- **Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.**
- **Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.**
- **Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.**
- **Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.**
- **Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.**
- **Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau.**

# Casgliadau ar y cyfan
# Integreiddio

**Mae integreiddio yn datblygu'n araf ac mae angen iddo symud o ymrwymiad i gamau sy'n mynd mor bell ag integreiddio cynlluniau, strategaethau a gweithgarwch.**

## Cryfderau

- Integreiddio a lleihau themâu strategol lefel uchel – mae'r Awdurdod wedi haneru nifer yr amcanion llesiant/gwella o'i gymharu â 2016-17.
- Ymrwymiad sylweddol i gysylltu camau gweithredu'r gwasanaeth â phartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Rhai enghreifftiau da o weithgarwch wedi'i alinio ar gyfer lleihau llosgi bwriadol a gweithgarwch ymweliadau Diogel ac Iach.

# Casgliadau ar y cyfan
# Integreiddio

**Mae integreiddio yn datblygu'n araf ac mae angen iddo symud o ymrwymiad i gamau sy'n mynd mor bell ag integreiddio cynlluniau, strategaethau a gweithgarwch.**

## Meysydd i'w Datblygu

- Cyfle i integreiddio cynlluniau a strategaethau ymhellach i sicrhau bod cydnabyddiaeth i'r ffyrdd y gellir cyrraedd Nodau Llesiant Cenedlaethol.
- Mae angen rheoli materion o ran capasiti sy'n gysylltiedig â gwasanaethu nifer o BGCau.
- Nid yw manteision ymwneud â'r BGCau ledled Gogledd Cymru wedi cael eu trosi eto'n ymatebion cwbl integredig gan gyrff cyhoeddus er gwaethaf parodrwydd i weithio yn y ffordd yma gan y Gwasanaeth Tân ac Achub.

# Casgliadau ar y cyfan
# Integreiddio

**Mae integreiddio yn datblygu'n araf ac mae angen iddo symud o ymrwymiad i gamau sy'n mynd mor bell ag integreiddio cynlluniau, strategaethau a gweithgarwch.**

## Meysydd i'w Datblygu

- Mae integreiddio â gwasanaethau iechyd yn dal i fod yn her ac nid yw'r broses o gydgysylltu camau gweithredu i gefnogi amcanion wedi'i datblygu'n llawn eto. Mae rhyddhau o'r ysbyty ac ymweliadau ar y cyd gyda gweithwyr cymdeithasol yn ddwy enghraifft o integreiddio cadarnhaol y gellir adeiladu arno.
- Er gwaethaf cydleoli â'r Gwasanaeth Ambiwlans, gallai'r Awdurdod wneud rhagor i ddangos sut y mae'n cysoni ei amcanion â rhai ei bartneriaid, ac egluro sut y mae integreiddio'n dwyn deilliannau gwell.

# Dangosyddion cadarnhaol ar gyfer Cynnwys

Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?

- Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.
- Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.
- Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.
- Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.
- Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.
- Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.
- Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella.

# Casgliadau ar y cyfan
# Cynnwys

**Mae gan yr Awdurdod rai enghreifftiau cadarnhaol o'r modd y mae'n cynnwys cymunedau o ran lleihau llosgi bwriadol a chynnau tanau'n fwriadol ond mae ganddo ragor o waith i'w wneud i brif-ffrydio trefniadau i'w cynnwys yn ei holl waith.**

**<u>Cryfderau</u>**

- Ymwneud sylweddol â chymunedau a dinasyddion trwy ddiffoddwyr tân ar alw a'r cymunedau lle maent yn byw ac yn gweithio.
- Peth gwaith da gyda'r trydydd sector ar ystod eang o fentrau sy'n canolbwyntio ar bobl agored i niwed a phobl â nodweddion gwarchodedig.
- Adborth Ar Ôl Digwyddiadau a rhyngweithio sylweddol gyda phobl trwy ymweliadau â'r cartref sy'n canolbwyntio ar gyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod.

# Casgliadau ar y cyfan
# Cynnwys

**Mae gan yr Awdurdod rai enghreifftiau cadarnhaol o'r modd y mae'n cynnwys cymunedau o ran lleihau llosgi bwriadol a chynnau tanau'n fwriadol ond mae ganddo ragor o waith i'w wneud i brif-ffrydio trefniadau i'w cynnwys yn ei holl waith.**

**Cryfderau**

- Ystod sylweddol o weithgareddau addysgol.
- Lefelau sylweddol o atgyfeiriadau gan asiantaethau partner gyda threfniadau 'brysbennu' priodol i flaenoriaethu ar sail risg.
- Ffocws ar 'Wneud i Bob Cyswllt Gyfrif' gydag ymwneud ac ymgysylltu â chymunedau ac unigolion.

# Casgliadau ar y cyfan
# Cynnwys

**Mae gan yr Awdurdod rai enghreifftiau cadarnhaol o'r modd y mae'n cynnwys cymunedau o ran lleihau llosgi bwriadol a chynnau tanau'n fwriadol ond mae ganddo ragor o waith i'w wneud i brif-ffrydio trefniadau i'w cynnwys yn ei holl waith.**

## Meysydd i'w Datblygu

- Gwneud cynnwys ac ymgysylltu'n adnodd strategol i gynorthwyo gwelliant i ddylanwadu ar y modd y darperir gwasanaethau ac i sicrhau bod amrywiaeth lawn y rhanddeiliaid yn cael ei chynrychioli.
- Mae dull yr Awdurdod o gynnwys yn dal i ganolbwyntio ar ymgynghori. Mae'n ceisio gweithio gyda chymunedau a dinasyddion mewn perthynas â'i gynlluniau a'i amcanion corfforaethol, ond cyfyngedig yw'r ymateb.

# Dangosyddion cadarnhaol ar gyfer Cydweithio

Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?

- Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.
- Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.
- Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.
- Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.
- Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol.

# Casgliadau ar y cyfan
# Cydweithio

**Gall yr Awdurdod ddangos effaith gadarnhaol ei fentrau cydweithio gyda rhai partneriaid allweddol ond mae angen iddo ddatblygu a chryfhau ei berthnasoedd a'i gyfraniad at amcanion partneriaethau ehangach.**

**Cryfderau**

- Mae cydweithio'n cefnogi capasiti corfforaethol mewn meysydd allweddol trwy bartïon allanol gyda threfniadau cytundebol hirsefydlog.
- Enghreifftiau o dargedu a blaenoriaethu pobl agored i niwed trwy bartneriaethau
- Cydweithio effeithiol gyda Gwasanaeth yr Heddlu trwy adnodd Swyddog wedi'i secondio i'r Tîm lleihau llosgi bwriadol
- Mae mynediad at Therapydd Galwedigaethol cenedlaethol wedi cynyddu capasiti ar gyfer y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol
- Mae ymgyrchoedd lleol yn gysylltiedig ag Ymgyrchoedd Diogelwch Tân Cenedlaethol

# Casgliadau ar y cyfan
# Cydweithio

**Gall yr Awdurdod ddangos effaith gadarnhaol ei fentrau cydweithio gyda rhai partneriaid allweddol ond mae angen iddo ddatblygu a chryfhau ei berthnasoedd a'i gyfraniad at amcanion partneriaethau ehangach.**

## Meysydd i'w Datblygu

- Mae ar y dull strategol o ran mentrau cydweithio angen eglurder a strategaethau ymadael.
- Mae angen eglurder i ategu'r sail resymegol dros ymweliadau Diogel ac Iach i osgoi dyblygu â gwasanaethau eraill (e.e. iechyd a gwasanaethau cymdeithasol).
- Angen mwy o eglurder ynghylch meini prawf bod yn agored i niwed gyda phartneriaid i dargedu'r risgiau uchaf yn ddigonol.
- Llawer o gydleoli ond nid yw rhai partneriaid wastad yn rhannu data.
- Mae dulliau anghyson gan y pedwar BGC yn cyfyngu ar effeithiolrwydd.
- Ystyrir bod cyflymder y cydweithio gyda'r Gwasanaethau Ambiwlans yn 'creu rhwystredigaeth'. Cyfleoedd i gydweithio'n agosach gyda Byrddau Iechyd ar risgiau sy'n gysylltiedig â rhyddhau o ysbytai.

# Arolwg o Bartneriaethau

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC)

  - Y Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol
  - Ymweliadau Diogel ac Iach

- Naw ymatebydd ar draws y ddwy bartneriaeth.

# Canfyddiadau allweddol yr arolwg

- Mae partneriaid a arolygwyd o’r farn bod gan yr Awdurdod a’i bartneriaeth gyd-ddealltwriaeth dda, ar feysydd sy’n amrywio o ddeall y cyd-destun lleol a’r amgylchedd y mae partneriaid yn gweithio ynddynt, i’w diwylliant a sut y caiff anghenion eu hadnabod.
- Mae’r mwyafrif o’r partneriaid yn gwerthfawrogi ymrwymiad yr Awdurdod i weithio mewn partneriaeth.
- Mae rhai sylwadau’n awgrymu nad yw’r ATA ond yn ymwneud â phartneriaid unwaith y mae tân mawr wedi digwydd yng Ngogledd Cymru.
- Cawsom ymatebion cadarnhaol gan bartneriaid ar eglurder diben ac amcanion yr Awdurdod lle mae gweithio mewn partneriaeth yn y cwestiwn. Er gwaethaf hyn, mae’r ymatebion yn dangos lle posibl i wella’r modd y mae’r Awdurdod yn cynnwys partneriaid yn y broses o ddylunio gwasanaethau newydd a sut y mae’n darparu cyfleoedd i bobl gael dweud eu dweud am bartneriaethau a mentrau cydweithio.

# Canfyddiadau allweddol yr arolwg

- Darparwyd rhai enghreifftiau da o'r modd y mae'r Awdurdod yn sicrhau atebolrwydd ar gyfer ei weithgareddau mewn partneriaeth, yn enwedig mewn perthynas â'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol.
- Cawsom lai o ymatebion cadarnhaol mewn perthynas ag adnoddau a chapasiti'r Awdurdod i wasanaethu a chynnal partneriaethau. Mae hyn yn cynnwys neilltuo digon o amser i unigolion â chyfrifoldebau am weithio mewn partneriaeth allu cyflawni'r gwaith sy'n ofynnol, a gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yng nghyllid neu gapasiti partneriaethau.
- Er gwaethaf hyn, mae partneriaid yn amlygu enghreifftiau cadarnhaol o waith mewn partneriaeth yn gwella defnydd ar y cyd o adnoddau (e.e. mynd i'r afael â thanau cerbydau bwriadol yn ardal Caia Park yn Wrecsam).

# Key survey findings

- Mae'r rhan fwyaf o bartneriaid o'r farn bod gan yr Awdurdod brosesau priodol i graffu ar berfformiad partneriaid a'i farnu, er bod llai o ymatebion cadarnhaol wrth ystyried pa un a yw'r Awdurdod yn dysgu o brofiadau yn y gorffennol lle mae gweithio mewn partneriaeth yn y cwestiwn.
- Mae sylwadau'n awgrymu bod partneriaid yn gwerthfawrogi'r perthnasoedd gweithio gyda staff yr Awdurdod. Mae enghreifftiau y soniwyd amdanynt yn cynnwys parodrwydd swyddogion i gynnal Ymweliadau Diogel ac Iach ar fyr rybudd a'u hagwedd hyderus.

# Dangosyddion cadarnhaol ar gyfer Atal

Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?

- Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.
- Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.
- Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.
- Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau.

# Casgliadau ar y cyfan
# Atal

**Mae atal yn ganolog i waith ATAau ac mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o'i waith cadarnhaol. Bydd cryfhau trefniadau gwerthuso'n helpu i osgoi dyblygu ac yn cynyddu'r effaith i'r eithaf.**

**Cryfderau**

- Newid pellach tuag at atal mewn ymweliadau Diogel ac Iach, gweithgarwch lleihau llosgi bwriadol a diogelwch ar y ffyrdd, dysgu am atal tanau gwyllt.
- Ymrwymiad sylweddol i ymgyrchoedd addysgol sy'n ceisio newid ymddygiad a chanfyddiad ac atal llosgi bwriadol.
- Mae ffocws hirsefydlog ar fynd i'r afael â marwolaethau o ganlyniad i danau a'r patrymau risg newidiol wedi bodoli dros nifer o flynyddoedd ac yn cael ei ategu gan arweinyddiaeth gadarn.
- Mae'r wefan newydd yn cynnwys peth wmbredd o wybodaeth am wella cydnerthedd cymunedol ac atal tanau ac achosion brys eraill.

# Casgliadau ar y cyfan
# Atal

**Mae atal yn ganolog i waith ATAau ac mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o'i waith cadarnhaol. Bydd cryfhau trefniadau gwerthuso'n helpu i osgoi dyblygu ac yn cynyddu'r effaith i'r eithaf.**

## Cryfderau

- Dull sydd wedi datblygu'n dda o ran materion cymdeithasol eraill – Trais yn erbyn menywod, arwahanrwydd, materion amrywiaeth a chydraddoldeb, tipio anghyfreithlon a gwaredu gwastraff, rhoi'r gorau i ysmygu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Gweithio tuag at newid y canfyddiad am gynnau tanau'n fwriadol gyda'i ddull holistaidd o fynd i'r afael â'r broblem – enghraifft o ddealltwriaeth yr Awdurdod am achosion sylfaenol problemau i dargedu gwaith atal.

# Casgliadau ar y cyfan
# Atal

**Mae atal yn ganolog i waith ATAau ac mae gan yr Awdurdod enghreifftiau da o'i waith cadarnhaol. Bydd cryfhau trefniadau gwerthuso'n helpu i osgoi dyblygu ac yn cynyddu'r effaith i'r eithaf.**

## Meysydd i'w Datblygu

- Bydd gwerthuso mentrau atal mewn modd systematig yn helpu i adnabod effaith yn fanwl.
- Mae angen eglurder o ran rôl ymweliadau Diogel ac Iach i osgoi dyblygu â'r gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- Dulliau gwahanol o ran defnyddio data a gwybodaeth ynghylch atal ar draws y tri ATA yng Nghymru.